Y cylchlythyr chwarterol rhad ac am ddim i denantiaid Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
Rhoi gwybodaeth i chi.
Yn barod **amdani**.

Gaeaf 2010

TAI CANOLBARTH CYMRU
MID-WALES HOUSING
Yn barod **amdani** **Equal** to the challenge

LOOK

TU MEWN...

Gwedd newydd ac agwedd newydd

Sut dylem ni ddyrannu ein cartrefi gwag? – Dwedwch eich barn!

Cyflwyno Tenant Newydd ar ein Bwrdd!

Ond Hoffem Gael Mwy o Denantiaid ar y Bwrdd!

Tai fforddiadwy ansawdd uchel ym Mhonterwyd

a llawer mwy

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru, Tŷ Canol, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys, SY16 1AL
ffôn: 0300 111 3030 ffacs: 0300 111 3031 sms: 07797 885035 e: info@mid-walesha.co.uk

TAI CANOLBARTH CYMRU
MID-WALES HOUSING
Yn barod **amdani** **Equal** to the challenge

Gwedd newydd ac agwedd newydd

Caiff logo newydd y Gymdeithas ei lansio'r mis hwn. Er bod gan y logo gysylltiad gyda'r hen un, mae'n rhoi mwy o bwysigrwydd ar waith sylfaenol y Gymdeithas. Darparu cartrefi mewn ardaloedd gwledig, gan danlinellu pwysigrwydd cydraddoldeb a thegwch yn y ffordd y gweithiwn.

Ond mae lansio'r logo newydd yn fwy na chyfle i ddiweddaru ein delwedd; mae'n nodi newid yn agwedd y Gymdeithas at ei rôl yn y Canolbarth.

Mae gan y Gymdeithas hanes o arloesi ac mae wedi canfod ffyrdd o ddod ag atebion lleol i broblemau tai penodol y Canolbarth. Oherwydd yr argyfwng economaidd hysbys iawn yn y Deyrnas Unedig, mae'r Gymdeithas yn teimlo bod ganddi ddyletswydd i'r ardal i atgyfnerthu ei hymdrechion i ganfod atebion i'r argyfwng tai fforddiadwy.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cynnig nifer o syniadau a dulliau newydd i ddarparu tai fforddiadwy, a byddwn yn gofyn i chi am eich sylwadau. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â sut y dylem fod yn dyrannu ein cartrefi gwag yn y dyfodol.

IN THIS ISSUE...

Gwedd newydd ac agwedd newydd	2
Sut dylem ni ddyrannu ein cartrefi gwag? – Dwedwch eich barn!	3
Cyflwyno Tenant Newydd ar ein Bwrdd!	3
Ond Hoffem Gael Mwy o Denantiaid ar y Bwrdd!	4
Tai fforddiadwy ansawdd uchel ym Mhonterwyd	5
Ymweliadau Stad	6
Cau dros y Nadolig	7
Ein Helpu i Ddarparu Gwasanaethau Gwell	8
Diwygio Budd-daliadau Tai	14
Gwirio Budd-daliadau	15
Gwiriadau Tân	16
Diwrnod Tenantiaid Clawdd Helyg	17
Diweddariad ar ein Grŵp Cyfarwyddwyr	18
Cymdeithas yn ymgynghori gyda Phreswylwyr Melin-y-Dre	19
Facebook	20
Cystadleuaeth Ffotograffau	20
Gwaith y bydd yn rhaid i chi dalu amdano	21
Rhifau ffôn defnyddiol	21-22

Sut dylem ni ddyrannu ein cartrefi gwag? – Dwedwch eich barn!

Byddwch wedi derbyn copi o bapur ymgynghori'r Gymdeithas yn ddiweddar ar sut y credwn y dylem newid y ffordd yr ydym yn dyrannu ein cartrefi gwag.

Mae hyn yn awgrymu, unwaith fod ymgeisydd wedi sefydlu eu bod angen cartref, y dylid rhoi blaenoriaeth i bobl leol, rhai mewn cyflogaeth yn y gymuned neu rai sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd arall at ffyniant y gymuned. Gall hyn fod drwy wirfoddoli (er enghraifft fel arweinydd Sgowtiaid) neu'n syml drwy fod yn gymydog da.

Hoffem yn fawr glywed eich barn ar y mater. Mae'r papur ymgynghori yn esbonio sut y medrwch roi eich barn. Medrir lawrlwytho copi arall o wefan y Gymdeithas (www.mid-walesha.co.uk) ac wrth gwrs medrwch ateb ar-lein hefyd.

Cyflwyno Tenant Newydd ar ein Bwrdd!

Yn ein Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ym mis Awst roedd y Gymdeithas yn hynod falch i groesawu Mr. Brian Christopher, tenant sy'n byw mewn tai gwarchod yn y Trallwng.

Mae Bryan wedi ymddeol fel Drafftsmon/Cynllunydd Peirianneg Fecanyddol a Rheolydd Cyflunio. Mae wedi mynychu nifer o gyrsiau rheoli i wella ei sgiliau rhyngbersonol ac mae'n credu y dylai'r gymuned leol gael defnyddio cyfleusterau ardderchog am gost resymnol.

Bu'n ymwneud â gweinyddu clybiau a chymdeithasau pysgota dros 40 mlynedd ar lefel leol a sirol, ac mae wedi gwasanaethu mewn gwahanol swyddi ar bwyllgorau i edrych ar ôl buddiannau pob clwb a'i aelodau.

Ond Hoffem Gael Mwy o Denantiaid ar y Bwrdd!

Mae'n bwysig fod y gwasanaethau a ddarparwn yn diwallu anghenion ein tenantiaid. Er bod arolygon yn helpu ein dealltwriaeth, gall tenantiaid gael dylanwad mwy uniongyrchol ar yr hyn a wnawn, drwy ymuno â'r Bwrdd.

Drwy fynychu tua un cyfarfod y mis yn wirfoddol, fel arfer ar fin nos yn ardal y Drenewydd, medrech ddweud eich bod wedi helpu i redeg sefydliad gyda throsiant miliynau o bunnau, wrth wneud cais am swyddi yn y dyfodol.

Nid yw o bwys os nad oes gennych brofiad blaenorol o gyfarfodydd Bwrdd; eich brwdfrydedd, diddordeb a'ch safbwynt fel tenant yw'r hyn yr edrychwn amdano! Byddwn yn darparu'r holl hyfforddiant perthnasol.

Byddwn yn talu'r holl dreuliau rhesymol, megis teithio a chynhaliaeth, ond fel arall nid oes tâl am y gwaith. Os ydych yn ansicr os yw hyn yn iawn i chi, ond yr hoffech weld yr hyn sy'n digwydd mewn Cyfarfod Bwrdd, yna byddwn yn trefnu i chi fynychu hyd at ddau gyfarfod cyn gwneud unrhyw ymrwymiad.

Os hoffech gael sgwrs am fod yn aelod o'r Bwrdd, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ffonio Janet Price (Cymhorthydd Personol y Prif Weithredydd) ar 0300 111 3030, neu anfon neges e-bost ati yn **jprice@mid-walesha.co.uk** – neu lenwi'r ffurflen islaw a'i rhoi yn yr amlen ateb-taledig.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych!

Mae gen i ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth am fod yn Denant Aelod Bwrdd. Anfonwch fwy o wybodaeth ataf os gwelwch yn dda.

ENW: _____

CYFEIRIAD: _____

_____

Rhif Ffôn _____ E-bost: _____

Dychwelwch i Janet Price, Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru, Tŷ Canol, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys, SY16 1AL.

Tai fforddiadwy ansawdd uchel ym Mhonterwyd

Bydd cartrefi fforddiadwy ar gael ar gyfer hyd at naw o deuluoedd lleol ym Mhonterwyd yn 2011.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymunedol Blaenrheidol, cychwynnodd gwaith yn Maes yr Awel yn gynharach eleni ac mae i gael ei orffen yn Ionawr 2011. Bydd y saith tŷ a'r ddau fyngalo sy'n cael eu hadeiladu ar gael ar gyfer eu rhentu neu eu rhan-brynu.

Cynhaliwyd Noswaith Agored ddydd Llun 4 Hydref yn Ysgol Syr John Rhys ym Mhonterwyd, lle'r oedd gwybodaeth ar gael am y cynllun a sut i wneud cais am gartref. Rhoddodd ein staff gyflwyniad byr ac ateb cwestiynau am y broses gais. Roedd ffurflenni cais ar gael ar y noswaith a rhoddwyd cymorth i'w llenwi. Roedd aelodau'r Cyngor Cymuned hefyd ar gael oedd yn rhoi cyfle gwych i bobl o'r ardal i gael mwy o wybodaeth am y cartrefi a'r gymuned leol.

Dywedodd Rachel Morgan, Cydlynydd Tai y Gymdeithas: "Mae'n newyddion da i ardal Ponterwyd ein bod yn medru dod â chartrefi newydd ansawdd da i'r pentref, a hoffem ddiolch i'r Cynghorwyr Cymuned a Sir lleol am eu cefnogaeth hirdymor i'r prosiect yma. Rydym yn angerddol am helpu i gynnal cymunedau gwledig a bydd ein datblygiad newydd ym Maes yr Awel yn rhoi mwy o gyfleoedd am dai fforddiadwy i bobl leol am flynyddoedd i ddod.

I gael mwy o wybodaeth ffoniwch Rachel Morgan yn Tai Canolbarth Cymru ar 01686 620528 neu e-bost rmorgan@midwalesha.co.uk.

Neu edrych ar ein gwefan: www.mid-walesha.co.uk.

Ymweliadau Stad

Fel y gwyddoch efallai o rifynnau blaenorol The Look, mae ein staff wedi cynnal ymweliadau stad, glanhau stad ac ymweliadau â gwahanol stadau.

Er yn gyffredinol bu'r rhain yn llwyddiannus, byddwn nawr yn trefnu ymweliadau stad wedi'u trefnu ymlaen llaw dros yr ychydig fisoedd nesaf. Mae hyn yn golygu y byddwch yn gwybod pryd fydd ein staff yn ymweld â lle rydych yn byw!

Y syniad am hyn yw, er bod ein staff ar ein stadau yn aml, byddwch yn gwybod pryd y byddant yno ac yn medru ein ffonio i wneud apwyntiad os dymunwch siarad gyda hwy.

Mae'r ymweliadau hyn eisoes wedi cychwyn yn y Drenewydd, Trefyclo, Llanandras a'r ardaloedd o amgylch. Bydd ein tenantiaid yn yr ardaloedd hyn yn cael ymweliad yn ôl y rhestr islaw. Dechreuodd hyn ym mis Tachwedd ac fe'i cynhelir eto yn ystod Ionawr a Mawrth 2011.

Dydd Mawrth 1af y mis
10.30 a.m. to 11.15 a.m.
Pine Court

11.30 a.m. to 12.00 canol-dydd
Cwrt Penllan

12.15 p.m. to 12.45 p.m.
Llys Afallen

2il ddydd Mawrth y mis
10.10 a.m. to 10.30 a.m.
Hill View Close

10.30 a.m. to 11.30 a.m.
Cwrt Eglwys
Ffordd Eglwys
Llys Eglwys

11.30 a.m. to 12.15 p.m.
Heol y Nant
Glandwr

3ydd dydd Mawrth y mis
10.30 a.m. to 11.15 a.m.
Cwrt Croesawdy
Station Cottages
Brooklands
Pendre

11.30 a.m. to 12.15 p.m.
Tŷ Hafren
Crescent Street
The Crescent

4ydd dydd Mawrth y mis
drwy'r dydd
Cnwclas
Trefyclo
Llanddewi yn Hwytyn
Llanandras
Cleirwy

Os dymunwch drafod unrhyw fater gyda Moira Hurley a/neu Jenny Esslemont yn ymwneud â lle'r ydych yn byw yna ffoniwch 0300 111 3030 i drefnu amser ar gyfer apwyntiad os gwelwch yn dda.

Byddwn yn ymestyn yr ymweliadau hyn i ardaloedd eraill yn y dyfodol agos iawn a byddwn yn gadael i chi wybod pryd y bydd ein staff yn ymweld â'ch ardal.

Cau dros y Nadolig

Bydd ein swyddfa yn y Drenewydd ar gau o 25 Rhagfyr 2010 hyd ddydd Mawrth 4 Ionawr 2011. Bydd ein swyddfa yn Llandrindod ar gau ddydd Iau 30 Rhagfyr 2010.

Os bydd argyfwng yn ystod y dyddiadau uchod, ffoniwch ein rhif swyddfa arferol 0300 111 3030 a chewch eich cyfeirio i'n gwasanaeth tu allan i oriau swyddfa.

Gan ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda gan holl staff Tai Canolbarth Cymru.

Wyddech chi?

Mae'n drosedd cael gwared â gwastraff domestig a fedrai achosi llygredd neu anaf i iechyd cyhoeddus, yn cynnwys ei losgi!

Ein Helpu i Ddarparu Gwasanaethau Gwell

Cyflwyno ein Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid Newydd!

Fe wnaethom sylweddoli fod angen i ni gyflogi Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid un-swydd er mwyn i ni fedru cynnwys ein tenantiaid yn ein gwaith orau byd y medrwn, ac yn y ffordd sy'n gweddu orau i chi. Penodwyd Hannah Jones yn Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ar ôl cyfweliadau gyda thenantiaid a staff a hi oedd dewis unfrydol pawb a gymerodd ran. Graddiodd Hannah yn y gyfraith yn ddiweddar ac mae'n edrych ymlaen yn fawr at ei rôl newydd gan ei bod yn ferch leol ac yn credu fod cymunedau'n bwysig iawn.

Dywedodd Hannah: "Rwy'n credu y medraf roi gwaith caled a brwdfrydedd i'r rôl i wneud yn sicr ein bod yn parhau i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau i alluogi cyfranogiad tenantiaid effeithiol. Byddaf yn gwerthfawrogi barn tenantiaid ac yn edrych ymlaen at gwrdd a gweithio gyda'n tenantiaid i wneud yn sicr y caiff y sylwadau a'r gwerthoedd hynny eu clywed a'u defnyddio. Rwy'n credu y medrwn barhau i wella ein gwasanaethau drwy gydweithio".

Cymryd Rhan

Mae gan Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru ymrwymiad cadarn i gynnwys ein tenantiaid ar bob lefel o wneud penderfyniadau. Mae cymryd rhan yn rhoi mwy o reolaeth i chi dros benderfyniadau am eich cartref a'ch cymuned. Drwy gymryd rhan cewch gyfle i gwrdd â thenantiaid eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd

a diddorol. Mae cymryd rhan yn rhoi boddhad a gall roi sgiliau newydd i chi! Medrwch ein helpu i wneud penderfyniadau a all fod o fudd i'ch cymuned.

Medrwch gymryd rhan mewn llawer o ffyrdd a chi sydd i benderfynu faint o ran y dymunwch ei gymryd.

LEFEL 1

Ychydig o ymrwymiad amser sydd ei angen ar gyfer y dulliau hyn o gymryd rhan a medrwch gymryd rhan pryd ac fel y mynnwch. Maent yn ffyrdd pwysig i bobl brysur i roi eu barn a chanfod mwy am faterion sy'n effeithio arnynt fel tenantiaid Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru.

- **Grŵp 50 Canolbarth Cymru**
  Rydym wedi datblygu Grŵp 50 Canolbarth Cymru i'w gwneud mor rhwydd ag sydd modd i gymryd rhan. Medrir cysylltu â chi am faterion sy'n effeithio arnoch a drwy ba bynnag ddull sy'n gweddu orau i chi (ffôn, e-bost, post).

Defnyddiwn ein Grŵp 50 i ofyn am sylwadau ac awgrymiadau ar ystod o faterion o Adolygiadau Gwella Parhaus ar ein gwasanaethau allweddol i adolygiadau polisi a gweithdrefn. Mae bod yn aelod o Grŵp yn golygu y medrwch helpu'r Gymdeithas i wella ei gwasanaethau o gysur eich cartref eich hunan!

- **Arolwg Boddhad Cyfranogiad Tenantiaid** – mae'r Gymdeithas yn cynnal arolwg sylweddol o Foddhad Tenantiaid bob 3-4 blynedd. Drwy gymryd rhan yn yr arolwg, medrwch chwarae rhan wrth ddweud wrth y Gymdeithas sut mae'n perfformio a rhoi eich barn ar y gwasanaethau a dderbyniwch gan y Gymdeithas.
- **Ymweliadau Stad** – medrwch fynd gyda'ch Cydlynydd Tai a Chydlynydd Rheolaeth Asedau ar ymweliadau stad i nodi'r materion sydd o bwys i chi.

Fe'ch hysbysir pryd y cynhelir ymweliadau stad er mwyn i chi fedru gwneud trefniadau i ymuno.

LEFEL 2

Mae'r dulliau hyn o gymryd rhan yn cymryd ychydig mwy o'ch amser ac maent ar gyfer pobl sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i'w cymuned leol yn ehangach yn ogystal â rhoi eu sylwadau eu hunain. Maent yn golygu y byddwch yn cwrdd yn rheolaidd gyda phreswylwyr eraill i drafod materion a syniadau sy'n effeithio ar eich cymuned leol.

- **Cymdeithasau Preswylwyr/Grwpiau Ffocws Lleol** – Mae'r rhain yn grwpiau lleol o breswylwyr sy'n cydweithio er budd eu cynllun neu gymuned leol.
- Mae Cymdeithasau Preswylwyr yn cwrdd yn rheolaidd i drafod ffyrdd o fynd i'r afael â materion lleol neu i drefnu gweithgareddau cymunedol lleol.
- Gall y Gymdeithas gefnogi sefydlu a rhedeg Cymdeithasau Preswylwyr gyda chefnogaeth ymarferol, hyfforddiant a grantiau bach ar gyfer costau rhedeg.

LEFEL 3

Mae'r dulliau hyn o gymryd rhan yn gofyn am fwy o amser gennych. Maent yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar holl breswylwyr Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru gyda phreswylwyr y Gymdeithas ar draws Powys a Cheredigion yn cwrdd yn rheolaidd.

- **Gweithgorau** – mae'r Gymdeithas yn dechrau defnyddio gweithgorau (grwpiau bach o staff a thenantiaid) i adolygu polisïau a gweithdrefnau.
- **Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr** – Mae hwn yn grŵp ar draws y Gymdeithas ac mae'n cynnwys ystod llawer ehangach o faterion sy'n effeithio ar holl breswylwyr Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru.

  Mae'r Fforwm yn cwrdd bob yn ail fis i ystyried y materion hyn – gan sicrhau y gofynnir am farn preswylwyr i wella gwasanaethau a gwybodaeth a roddir i breswylwyr.

  Mae Aelodau Bwrdd a staff uwch o Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd er mwyn sicrhau fod staff, preswylwyr a'r Bwrdd yn cydweithio ar faterion ar draws y Gymdeithas.

  Fel arfer cynhelir y cyfarfodydd yn ein swyddfa yn y Drenewydd a'r dyddiadau ar gyfer 2011 yw:

  4 Chwefror
  1 Ebrill
  3 Mehefin
  5 Awst
  7 Hydref
  2 Rhagfyr

Ymwelwch a'n gwefan i weld unrhyw newidiadau i'r lleoliad a'r dyddiadau: www.mid-walesha.co.uk.

- **Bwrdd Rheoli** – Y Bwrdd Rheoli yw corff gwneud penderfyniadau Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru. Mae'n ystyried pob mater strategol ac yn cadw golwg agos ar faterion gweithredol. Mae mewn gofal cyffredinol o bob penderfyniad a wneir.

Rydym yn edrych am Denant Aelodau Bwrdd newydd ar hyn o bryd – a yw'r rôl bwysig a chyffrous yma'n apelio atoch chi? Hoffech chi ddysgu sgiliau newydd? Os felly, cysylltwch â Hannah Jones os gwelwch yn dda i gael mwy o wybodaeth ar 0300 111 3030 neu hjones@mid-walesha.co.uk.

Canolfan Adnoddau Tenantiaid

Mae Canolfan Adnoddau Tenantiaid yn Nhŷ Canol ar gyfer galluogi tenantiaid i ddefnyddio cyfleusterau gyda mynediad am ddim i'r rhyngrwyd a defnydd ffôn. Gall tenantiaid ddefnyddio'r ystafell i gael mynediad i'r rhyngrwyd a gwasanaethau a all helpu i wneud bywyd yn rhwyddach.

Defnyddiwch y cyfleuster i gael mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ceisiadau swydd, gwaith coleg neu brifysgol a gwaith cartref plant.

Defnyddiwch y ffôn i ofyn am gyngor ar fudd-daliadau a chyngor ariannol.

Hoffech chi sefydlu clwb (e.e. gweu, gwyddbwyll, clwb llyfrau) ond heb unman i gwrdd – defnyddiwch ein hystafell!

Wyddoch chi am fudiad a hoffai gynnal cymorthfeydd a fyddai o fudd i chi? Medrant ddefnyddio'r canolfan adnoddau.

Cynllun Tenant Wirfoddolwyr 3 lle gwag

NEWYDD!! NEWYDD!! NEWYDD!!

CYNLLUN TENANT WIRFODDOLWYR 3 LLE GWAG

Mae cyflwyno Tenant Wirfoddolwyr mewn meysydd arbenigol allweddol yn rhan o'n Cynllun Gweithredu Strategaeth Leol ar Gyfranogiad Tenantiaid. Hoffem yn awr beilota'r cynllun a dymunwn recriwtio'r Tenant Wirfoddolwyr dilynol:

Gwirfoddolydd Dros 55
Oes gennych chi ddiddordeb yn y materion sy'n wynebu tenantiaid hŷn yn eich cymuned? Ydych chi dros 55 oed?

Os mai'r atebion yw'r cwestiynau hyn yw OES ac YDW, CHI yw'r person yr ydym yn edrych amdano.

Gwirfoddolydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Hoffech chi ein helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rywiol, hil, crefydd neu gredo, tueddfryd rhywiol neu unrhyw gyfuniad o'r rhain a'n helpu i wella'r gwasanaeth a ddarparwn ar draws y meysydd hyn?

Os BYDDECH, yna rydym ni, a'n tenantiaid, eich angen CHI!

Gwirfoddolydd Tenantiaid Ifanc (18+)
Sylweddolwn y gall tenantiaid iau fod angen cefnogaeth wrth ddelio gyda materion tai. Oes gennych chi ddiddordeb yn y materion sy'n wynebu tenantiaid iau yn eich cymuned?

Ydych chi rhwng 18 a 30 oed?

Os mai'r atebion i'r cwestiynau hyn yw OES ac YDW, yna rydym ni a'ch tenantiaid eich angen CHI!

Mae'r swyddi uchod yn golygu derbyn galwadau gan denantiaid eraill sy'n ffonio i gael help a gwybodaeth am wasanaethau Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru ac y byddai'n well ganddynt siarad gyda thenant arall yn hytrach nag aelod o staff. Byddwch yn helpu i annog gweithgaredd sy'n cryfhau ysbryd cymunedol ac o fudd i'n tenantiaid. Bydd ein staff yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda chi i drafod unrhyw broblemau a all fod gan ein tenantiaid.

Byddwn yn rhoi hyfforddiant a ffôn symudol ac yn talu swm anghyfleustra bach i chi bob 3 mis.

Y cyfan a ofynnwn gennych yw eich bod yn helpu neu gyfeirio tenantiaid sy'n cysylltu â chi ac yn mynychu cyfarfodydd Tenantiaid Wirfoddolwyr bob 3 mis.

Os oes gennych ddiddordeb yn unrhyw un o'r rolau uchod cysylltwch os gwelwch yn dda â Hannah Jones, Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid, ar 0300 111 3030 neu hjones@mid-walesha.co.uk i gael mwy o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb.

Cynrychiolwyr Stad
Hoffem gael cynrychiolydd ar bob un o'n stadau i'n helpu i ganfod barn a sylwadau ein tenantiaid. Hoffem i'n Cynrychiolwyr Stad ein helpu pan mae gennym arolygon drwy fynd o ddrws i ddrws o amgylch eu stad yn annog cymdogion i lenwi'r arolygon. Oes gennych chi ddiddordeb mewn dod yn Gynrychiolydd Stad? Os oes, cysylltwch os gwelwch yn dda â Hannah Jones ar 0300 111 3030 neu hjones@mid-walesha.co.uk.

Staff Hyrwyddo Tenantiaid
Mae pob un o'n hadrannau wedi penodi aelod o staff i weithredu fel 'hyrwyddwr' tenantiaid yn sicrhau fod y gwaith a wneir yn eu hadran yn cynnwys ein tenantiaid a'u barn pryd bynnag sy'n bosibl.

Gwasanaethau Tai	Moira Hurley
Rheoli Asedau	Jo Corfield
Cyllid	Sandra Jones
Gwybodaeth a Pherfformiad	Mo Woosnam
Datblygu	Andrew Jones
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chefnogaeth	Jane Jones

Cydweithio. Yn barod **amdani**.

Diwygio Budd-daliadau Tai

Mae'n sicr y byddwch wedi darllen yn y wasg fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi nifer o gynigion yn ymwneud â diwygio'r system budd-daliadau tai.

Ychydig o fanylion sydd ar gael am y newidiadau ar hyn o bryd ond cyhoeddwyd negeseuon 'pennawd'. Mae'r cynigion i gael eu gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cychwyn ym mis Ebrill 2011.

Un o'r cynigion sydd i'w gweithredu ym mis Ebrill 2011 yw newid i'r taliadau os gennych berson nad yw'n ddibynnol arnoch yn byw gyda chi a'ch bod yn derbyn budd-dal tai.

Pwy gaiff ei gyfrif fel person nad yw'n ddibynnol?

Fel arfer mae person nad yw'n ddibynnol yn rhywun sy'n byw gyda rhywun sy'n hawlio budd-dal tai ac nad ydynt yn:

1) bartner y sawl sy'n hawlio
2) plentyn neu berson ifanc sy'n ddibynnol ar y sawl sy'n hawlio
3) tenant ar y cyd

Mae personau nad ydynt yn ddibynnol yn gyffredinol yn blant mewn oed sy'n byw gyda'r sawl sy'n hawlio budd-dal tai. Medrant hefyd fod yn berthnasau eraill sy'n byw gyda'r sawl sy'n hawlio ond nad ydynt yn rhan o delerau'r cytundeb tenantiaeth.

Beth os oes gennyf berson nad yw'n ddibynnol arnaf yn byw gyda fi?

Os oes person nad yw'n ddibynnol arnoch yn byw gyda chi, gall hyn effeithio ar eich hawl i fudd-dal tai a gwneir didyniad o'ch hawliad.

Pam eich bod yn dweud hyn wrthyf?

Yr arwyddion ar hyn o bryd yw y bydd y costau ar gyfer personau nad ydynt yn ddibynnol yn cynyddu'n sylweddol o fis Ebrill 2011.

Ni wyddom ar hyn o bryd pa symiau gaiff eu codi am bobl nad ydynt yn ddibynnol sy'n byw gyda chi ond gadewch i ni wybod cyn gynted ag y gwyddom neu efallai y bydd Adran Budd-dal Tai y Cyngor yn cysylltu â chi.

Beth i'w wneud nesaf?

Cewch eich hysbysu cyn gynted ag sydd modd os ydych yn derbyn budd-dal tai ond bod hyn yn cael ei ostwng oherwydd bod person heb fod yn ddibynnol arnoch yn byw gyda chi neu os bydd person heb fod yn ddibynnol arnoch yn byw gyda chi yn y dyfodol. Unwaith i chi gael eich hysbysu am y costau newydd hyn, cysylltwch â'ch Cydlynydd Tai ar unwaith os gwelwch yn dda i drafod taliadau, gan mai chi fel tenant sy'n gyfrifol am unrhyw rent sy'n ddyledus.

Cysylltwch â'ch Cydlynydd Tai ar 0300 111 3030 os gwelwch yn dda.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am fanylion cynigion eraill i newid budd-dal tai fel a phryd y byddwn yn gwybod beth ydynt.

Gwirio Budd-daliadau

Defnyddiwch Turn2us i fod yn sicr eich bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt.

Medrwch un ai ymweld â gwefan Turn2us yn www.turn2us.org.uk neu ddilyn y ddolen islaw ar ein gwefan www.mid-walesha.co.uk.

A'r newyddion gorau oll yw y medrir ei ddefnyddio yn rhad ac am ddim!!

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, pam na ddefnyddiwch ein Ystafell Adnoddau Tenantiaid yn ein pencadlys yn y Drenewydd – unwaith eto mae hyn yn rhad ac am ddim i bawb.

Wyddech chi?

Gall pobl nad ydynt yn glanhau ar ôl eu ci gael dirwy o £50 yn y fan a'r lle. Os na thalwch, medrir ei herlyn a fedrai arwain at uchafswm dirwy o £1,000.

Gwiriadau Tân

Helo! Fy enw i yw Phillip Taylor o'r Drenewydd ac rwy'n byw yn un o gartrefi Tai Canolbarth Cymru. Roeddwn yn bresennol yn y Diwrnod Agored llwyddiannus iawn yn yr haf ac yn falch i weld y Frigâd Dân yn rhoi sgwrs ac yn dangos fideos. Fe wnaethant esbonio yn ystod yr arddangosiad eu bod yn medru mynd i gartrefi pobl a gwneud gwiriad tân yn rhad ac am ddim. Y cyfan oedd yn rhaid i ni wneud oedd llenwi ffurflen fach gyda'n henw a'n cyfeiriad arni. Ychydig wythnosau wedyn cefais alwad ffôn gan yr orsaf dân leol yn gofyn a oedd hi'n iawn iddynt alw heibio i wneud y gwiriad, cytunais wrth gwrs!

Cyrhaeddodd injan dân maint llawn ar yr amser a gytunwyd a daeth dau ddyn tân gyda blwch offer at y drws. Ar ôl cyflwyno eu hunan fe wnaethon nhw ddechrau gofyn cwestiynau am y tŷ, larymau mwg, llwybrau dianc, popty ac ati. Fe wnaethon nhw brofi'r larymau mwg a nodi lle'r oeddent a gofyn a oedd gennym unrhyw gwestiynau. Fe wnaethom ofyn ychydig o gwestiynau ond roedden nhw wedi esbonio'r rhan fwyaf roeddem eisiau ei wybod – cafodd ein cwestiynau eu hateb gydag argymhellion ond fe wnaethant ddweud fod ein cartref yn ddiogel ac nad oedd ganddon ni ddim i boeni amdano a bod y larymau mwg, yr oedd Tai Canolbarth Cymru, wedi'u gosod i gyd yn y lleoedd cywir.

Roeddent yn gyfeillgar ac yn gwneud i ni deimlo'n gartrefol. Fe wnaethant nodi'r llwybrau dianc, ffenestri ac ati, fel y byddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl os bydden nhw'n cael eu galw allan rywbryd. Ni fuont yma am hir ond roeddem wedi cael tawelwch meddwl wedyn.

Byddwn yn argymell yn gryf fod pawb yn cael y gwiriad ac os ydych eisiau gwiriad diogelwch tân am ddim yn eich cartref, ffoniwch un ai 0800 169 1234 neu gysylltu â'ch gorsaf dân leol.

0300 111 3030

Cofiwch defnyddio'r rhif ffon yma i gysylltu a ni!

Manteision i ddefnyddio'r rhif yma:

- Costiau isel hyd yn oed o ffon symudol
- Un rhif, hawdd i gofio ar gyfer ein gwasanaethau i gyd
- Gallwch ymddiried mewn rhifau 0300 gan ei fod ar gyfer y sector cyhoeddus yn unig

Diwrnod Tenantiaid Clawdd Helyg

Dros yr haf, bu preswylwyr Clawdd Helyg, Comins Coch ger Aberystwyth yn rhoi 'glanhâd blynyddol' i'w stryd gyda staff a chontractwyr. Yn y llun gwelir Shannon Wright a Brooklyn Williams, a wnaeth waith gwych yn tacluso'r llwybrau a'r glaswellt. Cynhaliwyd dyddiau tebyg hefyd yn Llanbedr Pont Steffan, y Trallwng, y Drenewydd, Llanandras a Llandrindod dros y flwyddyn ddiwethaf. Hoffem ddiolch i'r holl breswylwyr a gymerodd ran yn y dyddiau hyn am eu gwneud yn gymaint o lwyddiant. Cysylltwch os gwelwch yn dda â'ch Cydlynydd Tai os oes gennych eitemau swmpus i'w symud o'ch cartref.

Wyddech chi?

Os ydych yn deulu o bedwar, medrai treulio munud yn llai o amser yn y gawod arbed 12,000 litr o ddŵr y flwyddyn – byddai hyn yn arbed arian i chi os oes gennych fesurydd dŵr.

Diweddariad ar ein **Grŵp Cyfarwyddwyr**

Efallai y bydd darllenwyr o rifyn Gaeaf 2009 o 'The Look' yn cofio i ni sôn am ddau benodiad i'n Grŵp Cyfarwyddwyr – penodwyd Aidan Ackerman yn Gyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol a Carol Pearce yn Gyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol.

Gadawodd Carol ni yn fuan ar ôl ei phenodiad a hyd yn ddiweddar roedd gennym Gyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro.

Rydym yn falch i gyhoeddi fod ein Grŵp Cyfarwyddwyr yn gyflawn unwaith eto! Penodwyd Charles Brotherton yn Gyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol yn ddiweddar.

Bu Charles yn gweithio'n flaenorol i nifer o sefydliadau yn amrywio o gwmnïau cyfyngedig cyhoeddus mawr i awdurdodau lleol trefol a gwledig. Dechreuodd ymwneud â'r maes tai yn 1992 pan y'i penodwyd yn Brif Gyfrifydd Cyngor Dosbarth Wychavon o fewn y tîm Gwasanaethau Cyhoeddus oedd yn cynnwys tai. Roedd Charles yn rhan o'r tîm a sefydlodd gymdeithas tai trosglwyddo stoc newydd – Cymdeithas Tai Evesham a Pershore. Fe'i penodwyd wedyn yn Gyfarwyddydd Cyllid ac yn 2004 roedd yn ganolog yn yr ad-drefniant a greodd grŵp tai Rooftop.

Mae gan Charles ymrwymiad i werth am arian a sicrhau y gwneir y defnydd godau o adnoddau tra'n sicrhau diogelwch ariannol.

Croeso Charles!

Islaw gwelir Shane Perkins, Prif Weithredydd (canol), Aidan Ackerman, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol (ar y dde) a Charles Brotherton, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol (ar y chwith).

Cyngor Nadoligaidd Da

Er ei bod yn hyfryd prynu anrhegion ar gyfer teulu a ffrindiau adeg y Nadolig, cofiwch gadw eich gwariant o fewn cyllideb y medrwch ymdopi â hi.

Cymdeithas yn ymgynghori gyda Phreswylwyr Melin Y Dre

Bu'n staff yn mynd o amgylch fel arfer yn ystod yr haf yn ymweld â phreswylwyr. Yn Aberteifi, bu staff yn cynnal arolwg o breswylwyr Melin Y Dre yn gofyn sut y teimlent y dylem wario ein cyllideb. Islaw gwelir Sam Marshall, ein Cydlynydd Rheoli Asedau, yn Aberteifi. Diolch yn fawr i'r holl breswylwyr a gymerodd ran ac i'r teulu Hennessy am eu caredigrwydd yn caniatáu i ni ddefnyddio eu cartref am y bore.

Taith Prydain

Ras feic broffesiynol fwyaf Prydain myn mynd heibio pencadlys y Gymdeithas yn y Drenewydd.

Facebook

Hoffem ddefnyddio technoleg 21ain ganrif a datblygu tudalen Facebook. Byddem yn falch o gael eich barn am:

a) Ydych chi'n credu y dylem gael un?
b) Os felly, sut ydych chi'n credu y dylem ei datblygu?

Hoffem gael eich barn a byddem yn gwerthfawrogi pe medrech adael i ni gael eich sylwadau ar yr uchod drwy anfon neges e-bost atom yn post@mid-walesha.co.uk, ffonio ein Staff Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chefnogaeth ar 0300 111 3030 neu ysgrifennu atom yn ein Prif Swyddfa yn y Drenewydd erbyn 31 Ionawr 2011 fan bellaf.

Eisiau gwella'r stad/gymuned lle'r ydych yn byw?

Yna edrychwch ar y wefan http://www.o2thinkbig.co.uk/

Gall grantiau O2 fod ar gael i wella'r gymuned lle'r ydych yn byw! Mae ardal chwarae ar gyfer plant yn enghraifft o'r gwelliannau hyn.

Cystadleuaeth **Ffotograffau**

Hoffem i chi gymryd rhan yng nghystadleuaeth y rhifyn hwn.
Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw anfon ffotograffau atom o un ai adar un ai ar fyrddau adar, yn bwydo ar rwyd ac ati. Medrwch un ai eu hanfon i'n Prif Swyddfa neu'n electronig drwy e-bostio post@mid-walesha.co.uk .
Bydd gwobr o £50 i'r ffotograff gorau ym marn ein panel beirniaid.

Mae'n rhaid derbyn pob cais erbyn 31 Ionawr 2011.

Gwaith y bydd yn rhaid i chi dalu amdano

Os cysylltwch â ni yn gofyn am waith y bydd yn rhaid i chi dalu amdano e.e. newid clo drws, byddwn yn dweud y gwnawn y gwaith ac y bydd yn rhaid i chi dalu amdano. Byddwn yn gofyn i chi gytuno i hynny ac yn mynd ymlaen â'r gwaith unwaith y byddwch wedi cydnabod ei fod yn waith y bydd yn rhaid i chi dalu amdano a beth fydd y swm.

Mae gwaith y bydd yn rhaid i chi dalu amdano yn unrhyw beth nad yw'n draeul derbyniol.

Rhifau ffôn defnyddiol

Nwy Prydain	0800 0480202
Swalec	0800 343436
Scottish Power	0800 503050
Npower	0845 7145146

Os na wyddoch pwy yw'ch cyflenwr, yna ffoniwch

Nwy	0870 6081524
Trydan	0845 6015972

Cyngor Ar Bopeth

Aberystwyth	01970 612817
Aberteifi	01239 613707
Sir Faesyfed	01597 822000
neu	0845 6018421
Sir Drefaldwyn	01686 624390
neu	0845 6018421

Phoenix Furniture – Cyflenwr dodrefn rhad	01686 623336

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS)	02920 237303

Cynulliad Cenedlaethol Cymru	0845 0105500

Swyddfeydd Cyngor Sir Powys

Llanfyllin	01691 648381
Y Drenewydd	01686 617522
Y Trallwng	01938 552828
Llandrindod	01597 826000
Aberhonddu	01874 624141

Gwybodaeth ar Fudd-dal Tai a'r Dreth Gyngor	0845 0581879

Ceredigion County Council Offices

Aberaeron	01545 570881
Aberystwyth	01970 617911

Gwybodaeth ar Fudd-dal Tai a'r Dreth Gyngor	01970 633252

Canolfan Byd Gwaith – Ymholiadau am Fudd-dal Anallu, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisiwr Swydd

Ar gyfer pob hawliad	0845 6013614
Y Drenewydd	01686 863100
Llandrindod	01597 753100
Machynlleth	01654 543800
Y Trallwng	01938 525200

Shelter Cymru – Cymorth gyda materion Tai yn cynnwys ôl-ddyledion rhent a digartrefedd	0845 0755005

Cyllid y Wlad Crredyd Plant/ Credyd Treth Gweithio	0845 3003900

Budd-dal Plant	0845 3021444

Atgyfeiriadau Argyfwng 0300 111 3030